# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT

**(Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 18 Rhagfyr 2019** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.H.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.Mizen** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, S.Harris, J.Jones, D.Keogh, S.Miller, J.D.Morgan, M.Protheroe, S.Renkes, A.J.Richards, D.Whitelock a/ac J.Hale |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | M.Caddick a/ac A. Amor |
| **Swyddogion sy'n Bresennol** | A.Thomas, PWalker, R.Crowhurst a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.R.Lockyer a/ac P.A.Rees |

---

1. **DERBYN A NODI COFNODION YR IS-BWYLLGOR CRAFFU HAMDDEN A DIWYLLIANT**

   Bod cofnodion yr Is-bwyllgor Hamdden a Diwylliant ar 29 Ionawr 2019, 3 Mai 2019, 5 Medi 2019 a 22 Tachwedd 2019 yn cael eu nodi.

2. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

   Data Rheoli Perfformiad Chwarterol 2019-2020
   Perfformiad Chwarter 2 (1 Ebrill 2019 – 30 Medi 2019)

   Derbyniodd yr Aelodau ddata rheoli perfformiad, cwynion a chanmoliaethau chwarter 2 am y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 30 Medi 2019 ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Trafodwyd y gostyngiad yn y ffigurau presenoldeb, a nododd yr aelodau fod y feirws salwch diweddar mewn ysgolion wedi effeithio ar y ffigurau hyn.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Derbyniodd y pwyllgor drosolwg o'r adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yng Nghastell-nedd Port Talbot fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhoddwyd eglurhad na fyddai'r cynnig i symud pencadlys y llyfrgell i Ysgol Ynysmaerdy yn effeithio ar lyfrgelloedd eraill yn yr ardal gan y byddai'r pencadlys yn gyfleuster storio ac y byddai'n Ganolfan Adnoddau Llyfrgell Addysg ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Clywodd y pwyllgor fod yr adolygiad yn un cynhwysfawr a oedd yn cynnwys llyfrgelloedd cymunedol. O ganlyniad, byddai swyddogion yn cyfarfod â'r holl lyfrgelloedd cymunedol ym mis Ionawr 2020 i gael gwybod pa gymorth yr oedd ei angen arnynt wrth symud ymlaen. Gofynnodd yr Aelodau i'w gwerthfawrogiad gael ei roi i staff llyfrgelloedd, cymunedau (a gymerodd yr awenau o ran rhedeg llyfrgelloedd) a gwirfoddolwyr am yr holl ymrwymiad a'r ymroddiad yr oeddent wedi'u dangos dros y blynyddoedd diwethaf o ran sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn parhau i ffynnu.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Rhaglen Gwella Ysgolion Strategol - Cynnig i sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion oed uwchradd ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA).

Derbyniwyd gwybodaeth am y cynnig i sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion oedran uwchradd ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASD) yn Ysgol Gyfun Dŵr y Felin fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod 17 o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dod i law, a bod pob un ohonynt yn mynegi cefnogaeth i'r cynnig.

Byddai'r ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol i gefnogi'r cynnig. Byddai staff arbenigol yn cael eu recriwtio a fyddai o fudd i bob ysgol, drwy rannu eu gwybodaeth a'u harfer gan fod y strategaethau ar gyfer plant nad oes ganddynt ddatganiad yr un fath.

Mynegwyd pryder ynghylch y cynllun i ganiatáu i'r bws sy’n dod â phlant i'r ddarpariaeth arbenigol hon fynd i iard yr ysgol gan fod problemau eisoes o ran cerbydau'n cael mynediad i'r ardal hon. Esboniodd y Swyddog fod mesurau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau diogelwch y plant ac y byddai'r plant yn cael eu goruchwylio yn yr ardal reoledig wrth iddynt gyrraedd a gadael.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 3. BLAENRAGLEN WAITH 2019-20

Nododd yr Aelodau Flaenraglen Waith 2019/20. Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd ymweliadau safle â Bae Baglan a Bro Dur yn cael eu cynnal ar 3 Chwefror 2020. Yn ogystal, byddai Seminar yr Holl Aelodau ar Ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei gynnal ar 6 Chwefror 2020. Anogwyd pob aelod i fod yn bresennol.

## 4. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth

eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14
ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

**Craffu Cyn Penderfynu**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Adolygiad Perfformiad Chwe Misol Hamdden Celtic 2019-2020
ac
Adolygiad o Berfformiad Hamdden Celtic 2019/20

Atgoffwyd y pwyllgor fod yr Is-bwyllgor Hamdden a Diwylliant wedi craffu ar y ddwy eitem yn flaenorol ac na fyddent yn cael eu hystyried eto ond bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor am hysbysu'r pwyllgor ehangach ynghylch eu canfyddiadau.

Cytunwyd y byddai Hamdden Celtic yn mynd i gyfarfod yr Is-bwyllgor Hamdden a Diwylliant bob chwarter ac yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant bob chwe mis.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

.

**CADEIRYDD**